

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y BIL TYBACO A FÊPS

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth 2024. Gellir cael copi o'r Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/3703>

### Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig y Bil yw cyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf a dod yn gaeth i gynhyrchion tybaco, yn ogystal â chyflwyno mesurau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n fepio. Bydd y mesurau craidd yn y Bil yn:
  - ei gwneud hi'n drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;
  - cyflwyno mesurau i leihau apêl ac argaeledd fêps i blant;
  - atgyfnerthu gweithgarwch gorfodi er mwyn helpu i roi'r mesurau uchod ar waith.
4. Er mwyn cael gwared ar fannau gwan yn y rheoliadau ac amddiffyn rhag y niwed sy'n gysylltiedig â bod yn gaeth i nicotin yn y dyfodol, mae'r Bil yn darparu pwerau i ehangu cwrpas rhai mesurau penodol i gynhyrchion nicotin eraill, fel cw dau nicotin. Bydd y Bil hefyd yn ailddeddfu sawl mesur sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â fêps tybaco a nicotin ac yn diwygio'r diffiniad o dybaco a geir yn y deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau y caiff y gyfraith ei chymhwyso mewn ffordd gyson, gwella darllenadwyedd a chamau gorfodi dilynol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ledled y DU, gan adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol presennol sy'n gymwys ledled y DU.

### Crynodeb o'r Bil

5. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
6. Mae chwe rhan i'r Bil. Mae Rhan 1 o'r Bil yn berthnasol i Gymru a Lloegr, mae Rhan 2 yn berthnasol i'r Alban ac mae Rhan 3 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Mae Rhan 4 a Rhan 5 o'r Bil yn berthnasol i'r DU gyfan gan eu bod yn ymwneud â gofynion a safonau a fydd yn gymwys i'r DU gyfan. Mae Rhan 6 yn darparu darpariaethau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yn berthnasol i'r DU gyfan.
7. Mae darpariaethau allweddol y Bil, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, yn ymdrin â meysydd tybaco, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill, a chamau gorfodi. Yn ogystal â darpariaethau newydd, mae'r Bil hefyd yn anelu at

ailldeddfu ac atgyfnerthu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â thybaco a chynhyrchion fepio.

### Tybaco

Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- a. newid yr oedran cyfreithiol ar gyfer gwerthu cynhyrchion tybaco er mwyn atal pobl rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf; bydd yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 o 1 Ionawr 2027; bydd hyn yn lleihau'r cynhyrchion tybaco a gaiff eu gwerthu i genedlaethau'r dyfodol yn raddol; caiff y pŵer presennol sy'n nodi na ellir cynyddu'r oedran gwerthu tybaco i fod yn uwch na 18 (adran 13 o Ddeddf Iechyd 2006) ei ddiddymu gan ddilyn yr oedran gwerthu newydd a gyflwynir yn y Bil; caiff y drosedd oedran gwerthu bresennol (adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933) ei diddymu a'i hailddatgan yn y Bil er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd;
- b. ei gwneud hi'n drosedd i berson 18 oed neu drosodd brynu, neu geisio prynu (prynu drwy ddirprwy) unrhyw gynhyrchion o'r fath i rywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009; diddymu ac ailddatgan y drosedd prynu drwy ddirprwy bresennol sy'n gysylltiedig â thybaco (adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014), er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd;
- c. diwygio'r gofynion ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu; bydd angen i fanwerthwyr tybaco sicrhau bod eu hysbysiadau oedran gwerthu yn gydnaws â'r cyfyngiadau newydd ar yr oedran gwerthu i ddarllen "Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009" er mwyn hwyluso camau gorfodi a darparu negeseuon clir; bydd angen arwyddion dwyieithog yng Nghymru; caiff y darpariaethau presennol sy'n gysylltiedig â hysbysiadau oedran gwerthu (adran 4 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991) eu diddymu a'u hailddatgan yn y Bil er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd;
- d. diddymu ac ailddatgan y troseddau presennol sy'n gysylltiedig â gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu, a gwerthu sigarêts heb eu pecynnu, (adrannau 3 a 3A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991);
- e. caiff y drosedd o roi tybaco i bobl dan oed yng Nghymru (Pennod 4, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017), nad yw wedi dod i rym eto, ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â'r oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco;
- f. diddymu ac ailddatgan, gyda rhai addasiadau, y darpariaethau presennol sy'n gysylltiedig â deunydd pecynwaith ar gyfer manwerthu tybaco a chyflasynnau (adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014).

## Cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill

Er mwyn lleihau apêl ac argaeledd fêps (y cyfeirir atynt hefyd fel sigarêts electronig, e-sigarêts, system dosbarthu nicotin electronig (ENDS), neu anweddwyr) i blant a phobl ifanc, bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- a. darparu pwerau gwneud rheoliadau i gyfyngu cyflasynnau a disgrifiadau o gyflasynnau fêps, y deunydd pecynwaith a'r ffordd y caiff cynhyrchion fêps eu cyflwyno a'r ffordd y caiff fêps eu harddangos mewn mannau gwerthu ledled y DU;
- b. cynnwys pwerau gwneud rheoliadau er mwyn gallu ehangu'r broses o reoleiddio fêps i gynhyrchion nicotin eraill, fel cw dau nicotin;
- c. ehangu'r cyfyngiadau presennol ar werthu fêps nicotin i unigolion o dan 18 oed i fêps heb nicotin; ehangu'r cyfyngiadau presennol ar brynu fêps nicotin drwy ddirprwy i fêps heb nicotin; diddymu ac ailddatgan y troseddau presennol sy'n gysylltiedig ag oedran gwerthu fêps nicotin a'u prynu drwy ddirprwy (adrannau 91 a 92 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy) 2015), er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd;
- d. cyflwyno gwaharddiad ar ddsbarthu fêps am ddim i unigolion o dan 18 oed;
- e. cyflwyno pwerau i rai o'r gofynion hysbysu presennol ar gyfer cynhyrchion tybaco, o dan Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016, gael eu hehangu, ag addasiadau neu heb addasiadau, i amrywiaeth ehangach o gynhyrchion, gan gynnwys fêps heb nicotin a chynhyrchion nicotin fel cw dau nicotin;
- f. Diwygio'r drosedd bresennol o roi tybaco i bobl dan oed yng Nghymru (Pennod 4, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017), nad yw wedi dod i rym eto, i'w hehangu i gynhyrchion fepio yn unol â'r darpariaethau newydd yn y Bil.

## Gorfodi

Nod y mesurau gorfodi yw galluogi awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr i orfodi'r mesurau tybaco a fêps yn y Bil yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bil yn gwneud y canlynol:

- a. mae'n cadw elfennau o'r dull gorfodi presennol, gan gynnwys cosbau ar ffurf dirwyon troseddol a phwerau i ynadon wneud gorchmynion mangre o dan gyfyngiad a gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad ar gyfer troseddwyr mynych. Caiff y darpariaethau presennol ar y pwerau i wneud gorchmynion mangre o dan gyfyngiad a gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad (adrannau 12A i 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933) eu

diddymu a'u hailddatgan yn y Bil er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd;

- b. bydd yn caniatáu i awdurdodau gorfodi gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig o £100 mewn perthynas â thorri'r canlynol: y ddeddfwriaeth oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a fêps, y cyfyngiadau prynu drwy ddirprwy ar gyfer tybaco a fêps a'r cyfyngiadau ar ddsbarthu fêps am ddim; mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau er mwyn gallu cynyddu swm y gosb benodedig; caiff y darpariaethau presennol ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer torri'r troseddau prynu drwy ddirprwy sy'n gysylltiedig â fêps tybaco a nicotin (adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014) eu diddymu a'u hailddatgan yn y Bil er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r darpariaethau newydd ar er mwyn eu hehangu i fêps heb nicotin; bydd hyn yn darparu cyfundrefn cosb benodedig unigol ar gyfer yr holl droseddau hyn er mwyn creu dull gweithredu cyson i swyddogion gorfodi a busnesau yng Nghymru a Lloegr;
  - c. Diddymu ac ailddatgan y darpariaethau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gorfodi baratoi rhaglen orfodi flynyddol mewn perthynas â rhai troseddau penodol (adran 5 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991). Caiff y darpariaethau eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â darpariaethau newydd y Bil.
8. Mae'r Bil, sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth debyg ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi cael cefnogaeth llywodraethau'r pedair gwlad sy'n anelu at yr un uchelgais, sef cael gwared ar smygu a mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc sy'n fepio. Er mai'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr oedd yn gyfrifol am arwain y broses o ddatblygu'r Bil, cafwyd cydweithrediad cryf a pharhaus rhwng Llywodraeth Cymru, yr Adran, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil.
  9. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol Khan i uchelgais Llywodraeth y DU i fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.gov.uk/government/publications/the-khan-review-making-smoking-obsolete>. Gwnaeth yr adolygiad 15 o argymhellion er mwyn cyflawni cymdeithas ddi-fwg, gan gynnwys y dylai'r llywodraeth gynyddu oedran gwerthu cynhyrchion tybaco o 18, flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd nes na ellir eu gwerthu yn gyfreithlon i unrhyw un. Mewn perthynas â fêps, argymhellodd Adolygiad Khan y dylai Llywodraeth y DU wahardd cartwnau neu ddelweddau ar y deunydd pecynwaith, y dylid cynnal adolygiad o gyflasynnau a disgrifiadau o fêps, ac y dylid gwahardd cwmnïau fêps rhag dosbarthu samplau am ddim o fêps. Er mai cynigion ar gyfer Lloegr a wnaed yn Adolygiad Khan, roedd llawer o'r argymhellion yn berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru ac i uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru>.
  10. Ym mis Ebrill 2023, lansiodd Llywodraeth y DU ymgyrch Youth Vaping: call for evidence (<https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/youth-vaping-call-for-evidence/youth-vaping-call-for-evidence>) er mwyn ystyried y camau pellach y gallai'r llywodraeth eu cymryd i amddiffyn plant rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â fepio. Aeth ati i ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cydymffurfiaeth

reoliadol, y broses o farchnata a hyrwyddo fêps, rôl y cyfryngau cymdeithasol, ac effaith fepio ar yr amgylchedd. Canfu'r cais am dystiolaeth fod ymdrechion i hyrwyddo fêps, sut y cânt eu harddangos, yr amrywiaeth sydd ar gael a'r deunydd pecynwaith a ddefnyddir yn denu plant a phobl ifanc i ddechrau defnyddio'r cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd y canfyddiadau y gall fêps fod yn ffordd effeithiol o helpu oedolion sy'n smygu i roi'r gorau iddi.

11. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cyd gan y pedair gwlad ar gamau gweithredu arfaethedig i'r DU gyfan er mwyn mynd i'r afael â smygu a fepio ymhlith pobl ifanc rhwng 12 Hydref 2023 a 6 Rhagfyr 2023. Mae'r papur ymgynghori a'r ddogfen ganlyniad (a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2024 ac a nododd y safbwynt y cytunwyd arno gan y pedair llywodraeth) ar gael yma:  
<https://www.gov.uk/government/consultations/creating-a-smokefree-generation-and-tackling-youth-vaping>.
12. Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol sy'n gyfrifol am dybaco, a bu'n gohebu ag ef, i drafod ac i gytuno ar drefniadau gweithio rhynglywodraeth ar y mesurau, yr ymgynghoriad, ei ganlyniad a'r broses o ddatblygu'r Bil.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o ddarpariaethau'r Bil sy'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac y mae felly angen cydsyniad ar eu cyfer. Pan fo darpariaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, nodir hefyd weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer.

### **Rhan 1: Gwerthu a dosbarthu: Cymru a Lloegr**

14. Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymdrin â gwerthu a dosbarthu cynhyrchion tybaco a chynhyrchion fepio a nicotin ac mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr.
15. Mae'r Cymalau perthnasol yn y Rhan hon, y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer, fel a ganlyn:
  - Cymalau 1 i 4 a 6 – Tybaco etc
  - Cymalau 7 i 11 – Cynhyrchion fepio a nicotin
  - Cymalau 12 i 15 – Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad
  - Cymalau 16 ac 17 – Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad
  - Cymal 18 – Troseddau gan gyrff
  - Cymalau 19 a 21 – Swyddogaethau gorfodi
  - Cymalau 22 a 23 – Pŵer gweinidogion i gymryd cyfrifoldeb dros orfodi
  - Cymalau 24 i 26 – Cosbau penodedig
  - Cymal 27 ac Atodlen 1 – Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru
  - Cymal 28 Atodlenni 2, 3 a 4, 29-32 – Darpariaeth ganlyniadol, drosiannol a darfodol
  - Cymal 33 – Cymhwysio i'r Goron
  - Cymalau 34 i 36 – Dehongli etc

## Cymalau 1 i 4 a 6 – Tybaco etc

16. Mae'r cymalau hyn yn gwneud cyfyngiadau ynghylch gallu safleoedd manwerthu i werthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts.
17. Mae cymal 1 yn cyflwyno cyfyngiad newydd ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts. Mae'r cymal yn ei gwneud hi'n drosedd gwerthu'r cynhyrchion hyn i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009.
18. Nid yw'r cyfyngiad oedran gwerthu yn berthnasol i werthiannau a wneir fel rhan o fusnes felly ni fyddai'n atal rhywun a anwyd ar ôl 1 Ionawr 2009 rhag cael ei gyflogi mewn busnes manwerthu tybaco neu gyfanwerthwr tybaco. Nid yw'r cyfyngiad oedran gwerthu yn ei gwneud hi'n drosedd i rywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 feddu ar gynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol neu bapurau sigarêts na'u defnyddio.
19. Fel amddiffyniad, bydd angen i rywun a gaiff ei gyhuddo o'r drosedd brofi ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Gallai unigolyn a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
20. Mae cymal 2 yn ei gwneud hi'n drosedd i unrhyw oedolyn 18 oed neu drosodd brynu, neu geisio prynu, cynhyrchion tybaco, papurau sigarêts neu gynhyrchion smygu llysieuol ar ran rhywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009, y cyfeirir ato'n gyffredinol fel 'prynu drwy ddirprwy'. Mae hyn yn sicrhau cydnawsedd â'r cyfyngiad newydd ar yr oedran gwerthu yng nghymal 1. Dim ond unigolion 18 oed neu drosodd all gyflawni'r drosedd er mwyn osgoi troseddoli plant. Mae'r cymal yn nodi'r amgylchiadau cyfyngedig lle y bydd amddiffyniadau yn berthnasol. Gallai unigolyn a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
21. Mae cymal 3 yn ailddeddfu ac yn cydgrynhoi (heb newid y gyfraith) y sefyllfaoedd presennol a nodir yn y gyfraith. Bydd gwerthu cynhyrchion tybaco o beiriannau gwerthu a rheoli mangre lle caiff peiriant gwerthu tybaco ei ddefnyddio i werthu'r cynhyrchion hyn yn parhau'n drosedd. Gallai person a gaiff ei euogfarnu o drosedd o dan y ddarpariaeth hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
22. Mae cymal 4 yn ailddeddfu (heb newid y gyfraith) y gwaharddiad presennol rhag gwerthu sigarêts pan na fyddant yn eu deunydd pecynwaith gwreiddiol. Rhaid i fanwerthwyr tybaco werthu sigarêts yn y deunydd pecynwaith y cânt eu cyflenwi iddynt ynddo. Mae methu â gwneud hynny yn drosedd. Gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol).
23. Mae cymal 6 yn gwneud yr un ddarpariaeth i Gymru ag y mae cymal 5 yn ei gwneud i Loegr. Mae'r cymal yn disodli'r gofyniad blaenorol ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu â gofyniad i fanwerthwyr tybaco yng Nghymru arddangos hysbysiad oedran gwerthu mewn man amlwg sy'n nodi, "Mae'n anghyfreithlon

gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009” a “It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009”. Rhaid arddangos yr arwydd newydd o 1 Ionawr 2027. Y gosb am fethu ag arddangos hysbysiad yw dirwy o hyd at £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol).

24. Mae cymal 6(4) yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru allu pennu gofynion o ran maint neu ymddangosiad y datganiad i'w arddangos ar yr hysbysiad neu unrhyw agwedd arall ar yr hysbysiad, er enghraifft lliw'r hysbysiad. Caiff gofynion ar gyfer yr hysbysiad eu nodi mewn rheoliadau cyn 1 Ionawr 2027. Mae cymal 6 yn ailddeddfu'r pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 4 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991 gan gyflwyno addasiadau iddo. Cafodd Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Arddangos Datganiadau Rhybuddio) 1992 eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 4. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

### **Cymalau 7 i 11 – Cynhyrchion fepio a nicotin**

25. Mae'r cymalau hyn yn cyfyngu dyfeisiau fepio a dyfeisiau nicotin. Diffinnir cynnyrch fepio yng nghymal 33 fel fêp neu sylwedd fepio ac mae'n cynnwys cynhyrchion fepio nicotin a chynhyrchion fepio heb nicotin. Mae hyn yn newid y ddarpariaeth bresennol ar gyfer oedran gwerthu sydd ar hyn o bryd yn cynnwys fêps nicotin yn unig, a daw'r newid hwn i rym chwe mis ar ôl i'r Bil gael ei basio.
26. Mae cymal 7 yn cyfyngu oedran gwerthu cynhyrchion fepio fel na ellir eu gwerthu i blant o dan 18 oed. Mae hyn yn disodli'r cyfyngiad presennol ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion mewnanadlu nicotin (fêps nicotin) fel y'i nodir yn Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy) 2015 ac yn ei gwneud hi'n drosedd gwerthu fêp nicotin i blant o dan 18 oed. Mae'r cymal yn ei gwneud hi'n drosedd gwerthu cynnyrch fepio i berson o dan 18 oed. Mae'r cymal yn darparu ei fod yn amddiffyniad i rywun a gaiff ei gyhuddo o drosedd o dan y cymal hwn brofi ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
27. Mae cymal 8 yn gwahardd unigolion rhag prynu cynhyrchion fepio ar ran rhywun sydd o dan 18 oed, y cyfeirir ato hefyd fel prynu drwy ddirprwy. Mae hyn yn disodli adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014). Mae'r cymal hwn yn ei gwneud hi'n drosedd i berson 18 oed neu drosodd brynu, neu geisio prynu, cynnyrch fepio ar ran rhywun o dan 18 oed. Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod hi'n amddiffyniad i berson a gaiff ei gyhuddo o drosedd brofi nad oedd ganddo unrhyw reswm dros amau fod y person arall o dan 18 oed. Gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
28. Mae cymal 9 yn ei gwneud hi'n drosedd rhoi cynnyrch fepio am ddim i rywun o dan 18 oed. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar fusnesau o ran dosbarthu cynhyrchion fepio nicotin a chynhyrchion fepio heb nicotin am ddim i blant o dan 18 oed. Mae dosbarthu tybaco am ddim wedi'i wahardd ar gyfer pob oedran. Fodd bynnag, dim ond cyfyngu'r broses o ddosbarthu cynhyrchion fepio am ddim i blant y mae'r ddarpariaeth hon, nid i oedolion.

29. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud hi'n drosedd i rywun mewn lleoliad busnes, roi cynnyrch fepio am ddim, neu gwpon ar gyfer cynnyrch fepio, i rywun sydd o dan 18 oed, neu ganiatáu i hynny ddigwydd. Er enghraifft, fel rhan o ymgyrch hyrwyddo. Ystyr "cwpon ar gyfer cynnyrch fepio" yw unrhyw beth y gellir ei gyfnewid am gynnyrch fepio. Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod hi'n amddiffyniad i berson a gaiff ei gyhuddo o drosedd brofi nad oedd ganddo unrhyw reswm dros amau fod y person arall o dan 18 oed a gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
30. Mae cymal 10 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ehangu'r mesurau sy'n berthnasol i gynhyrchion fepio yn Rhan 1 o'r Bil i gynnwys cynhyrchion nicotin eraill, er enghraifft cw dau nicotin. Mae cymal 34 yn nodi beth sy'n gyfystyr â "chynnyrch nicotin". Y mesurau y gellir eu hehangu i gynnwys cynhyrchion nicotin yw cymal 7 (Gwerthu cynhyrchion fepio i unigolion o dan 18 oed), cymal 8 (Prynu cynhyrchion fepio ar ran unigolion o dan 18 oed) a chymal 9 (Dosbarthu cynhyrchion fepio am ddim i unigolion o dan 18 oed). O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion nicotin eraill nac ar ymdrechion i'w dosbarthu am ddim. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
31. Mae cymal 11 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru reoleiddio sut yr arddangosir cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin a'u prisiau, yn ogystal â sut yr arddangosir deunydd pecynwaith manwerthu gwag, ar safleoedd manwerthu yng Nghymru a Lloegr. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran ble y gellir arddangos cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill, yn ogystal â'u prisiau, ar safleoedd manwerthu. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
32. Bydd y pŵer yn golygu y gellir cyflwyno gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau mewn perthynas ag arddangos cynhyrchion fepio neu gynhyrchion nicotin a'u prisiau, yn ogystal ag arddangos deunydd pecynwaith manwerthu gwag, yn y manau y caiff y cynhyrchion hyn eu gwerthu. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r cynhyrchion gael eu cadw y tu ôl i'r cownter. Mae'r pŵer hefyd yn ei gwneud hi'n haws creu troseddau ar gyfer methu â chydymffurfio â'r rheoliadau a gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael ei garcharu, cael dirwy neu'r ddau.

### **Cymalau 12 i 15 – Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad**

33. Mae cymal 12 yn darparu y gellir cosbi troseddwy'r mynych sy'n cyflawni troseddau perthnasol drwy eu hatal rhag gwerthu rhai cynhyrchion penodol o'r fangre honno (e.e. cynhyrchion tybaco neu fepio). Mae troseddau perthnasol yn cynnwys y rhai hynny o dan gymalau 1 (Gwerthu tybaco), 3 (Peiriannau gwerthu tybaco) a 7 (Gwerthu cynhyrchion fepio i unigolion o dan 18 oed) o'r Bil hwn, yn ogystal â'r troseddau presennol a ddangosir yn is-adran 8(b) hyd nes y cânt eu diddymu. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 12A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1993, ac mae'n seiliedig ar yr adran honno, gan mai ar gyfer achosion mynych o



dorri'r ddeddfwriaeth oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin y cyflwynwyd gorchmynion mangre o dan gyfyngiad.

34. Mae'r cymal yn nodi os bydd person a gaiff ei euogfarnu o drosedd berthnasol yn droseddwr mynych, y gall yr awdurdod gorfodi wneud cais i lys yr ynadon am orchymyn mangre o dan gyfyngiad. Ystyr "troseddwr mynych" yw rhywun sydd wedi cyflawni trosedd berthnasol mewn perthynas â'r fangre o leiaf ar ddau achlysur arall o fewn cyfnod o ddwy flynedd.
35. Mae gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn golygu y caiff y busnes manwerthu yn y lleoliad lle cyflawnwyd y troseddau ei wahardd rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio ac unrhyw gynhyrchion nicotin. Gall y gwaharddiad hwn bara am gyfnod o hyd at 12 mis a'r llys fydd yn pennu hyd y gorchymyn. Mae hyn yn golygu na ellir gwerthu unrhyw rai o'r cynhyrchion hyn o fangre'r busnes hwnnw, ond nid yw'n effeithio ar fusnesau eraill sy'n rhan o'r un grŵp neu gadwyn. Mae gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn bridiant tir lleol, sy'n golygu y bydd yn rhwymo unrhyw un sy'n prynu'r fangre.
36. Mae cymal 13 yn nodi'r meini prawf lle caniateir i unigolion ('personau â buddiant') gyflwyno sylwadau i'r llys er mwyn ceisio atal gorchymyn mangre o dan gyfyngiad rhag cael ei gyhoeddi yn erbyn person. Mae'r cymal hefyd yn darparu'r gofynion ar gyfer dyfarnu gorchymyn mangre o dan gyfyngiad a'r sefyllfaoedd lle y gallai person â buddiant herio gorchymyn mangre o dan gyfyngiad.
37. Mae cymal 14 yn ei gwneud hi'n drosedd torri gorchymyn mangre o dan gyfyngiad fel y'i diffinnir yng nghymal 12. Gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy ddiderfyn.
38. Mae cymal 15 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o "droseddau perthnasol" y gellir cyhoeddi gorchymyn mangre o dan gyfyngiad ar eu cyfer. Gall Gweinidogion Cymru wneud y newidiadau mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru a gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud y newidiadau mewn perthynas â mangreoedd yn Lloegr. Mae'r pŵer hwn yn bŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond rhoddwyd y pŵer hwn i Weinidogion Cymru yn adran 51 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.
39. Rhaid i unrhyw droseddau ychwanegol fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau sy'n berthnasol i gynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Gweinidogion ystyried pwy sy'n debygol o fod â diddordeb yn y rheoliadau a dylai Gweinidogion ymgynghori â'r rhai hynny yr ystyrir bod angen ymgynghori â nhw. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

## **Cymalau 16 ac 17 – Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad**

40. Mae cymal 16 yn darparu y gellir cosbi troseddwr mynych sy'n cyflawni troseddau perthnasol drwy eu gwahardd rhag gwerthu rhai cynhyrchion penodol (e.e. cynhyrchion tybaco neu fepio). Mae'r troseddau perthnasol yn ymwneud â thorri cymalau 1 (Gwerthu tybaco), 3 (Peiriannau gwerthu tybaco) a 7 (Gwerthu cynhyrchion fepio i unigolion o dan 18 oed). Mae'r cymal hwn yn disodli adran 12B o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1993, ac mae'n seiliedig ar yr adran honno, lle cyflwynwyd gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad ar gyfer achosion mynych o dorri'r ddeddfwriaeth oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin.
41. Os bydd person a gaiff ei euogfarnu o drosedd berthnasol yn droseddwr mynych, gall y swyddog gorfodi wneud cais i lys yr ynadon am orchymyn gwerthu o dan gyfyngiad. Ystyr "troseddwr mynych" yw unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o drosedd berthnasol sydd wedi cyflawni trosedd berthnasol ar ddau achlysur arall o leiaf o fewn dwy flynedd i'r drosedd ddiweddaraf.
42. Mae gorchymyn gwerthu o dan gyfyngiad yn gwahardd person penodedig o fewn busnes rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysiuol, papurau sigarét, cynhyrchion fepio, neu unrhyw gynnyrch nicotin perthnasol neu rhag cael unrhyw swydd reoli mewn unrhyw fangre sy'n gysylltiedig â gwerthu'r cynhyrchion hyn. Gall y gwaharddiad hwn bara am gyfnod o hyd at 12 mis a'r llys fydd yn pennu hyd y gorchymyn. Bydd y gorchymyn yn berthnasol i'r unigolyn penodedig ni waeth ble y bydd wedi'i gyflogi.
43. Mae cymal 17 yn ei gwneud hi'n drosedd peidio â chydymffurfio â gorchymyn gwerthu o dan gyfyngiad lle bydd gorchymyn o'r fath wedi'i gyhoeddi. Mae'r cymal hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle y bydd amddiffyniad yn berthnasol. Gallai unrhyw un a gaiff ei euogfarnu o'r drosedd hon gael dirwy ddiderfyn.

## **Cymal 18 – Troseddau gan gyrff**

44. Mae cymal 18 yn golygu y gallai person perthnasol fod yn atebol am drosedd a gyflawnwyd gan gorff lle cyflawnwyd y drosedd â chydysniad, ymoddefiad neu esgeulustod y person hwnnw. Gallai person perthnasol gynnwys cyfarwyddwr neu reolwr cwmni neu rywun â statws partner mewn partneriaeth. Mewn achosion o'r fath, byddai'r person perthnasol yn atebol yn ogystal â'r corff (fel y cwmni neu'r bartneriaeth) mae'n gweithio iddo. Mae hyn yn berthnasol i gymal 14 (Torri gorchymyn mangre o dan gyfyngiad) neu unrhyw drosedd arall o dan Ran 1 o'r Bil neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan gymal 11 (Arddangos cynhyrchion fepio a nicotin).

## **Cymalau 19 i 21 – Swyddogaethau gorfodi**

45. Mae cymal 19 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i orfodi'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan gymal 11 (Arddangos cynhyrchion fepio a nicotin). Mae'n nodi mai'r pŵerau ymchwilio sydd ar gael i awdurdod gorfodi yw'r pŵerau hynny yn Atodlen 5 (Pŵerau ymchwilio) i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (Deddf 2015).

46. Mae cymal 21 yn darparu gofynion i awdurdodau gorfodi yng Nghymru ystyried rhaglen o gamau gorfodi bob blwyddyn er mwyn ymchwilio i gwynion o dan gymal 11 (Arddangos cynhyrchion fepio a nicotin). Pan ddaw'r drosedd o roi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru (adran 51A a 52 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, fel y'i diwygiwyd gan y Bil) i rym, bydd y troseddau hynny hefyd yn cael eu hystyried gan yr awdurdodau gorfodi. Mae hyn yn ffordd o sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried a ydynt yn gorfodi troseddau penodol yn effeithiol.

### **Cymalau 22 a 23 – Pŵer gweinidogion i gymryd cyfrifoldeb dros orfodi**

47. Mae cymal 22 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru, yn eu tiriogaethau perthnasol, gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag achos penodol neu fath penodol o achos yn hytrach na'r awdurdod gorfodi lleol. Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag achos penodol.
48. Mae cymal 23 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn eu tiriogaethau perthnasol gymryd cyfrifoldeb dros yr achos cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd o dan Ran 1 o'r Bil neu reoliadau a wnaed o dan gymal 11 (Arddangos cynhyrchion fepio a nicotin). Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gynnal yr achos cyfreithiol mewn perthynas ag achos penodol.

### **Cymal 24 i 26 – Cosbau benodedig**

49. Mae cymal 24 yn cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig er mwyn gorfodi amrywiaeth ehangach o droseddau nag ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a fepio (cymalau 1 a 7), prynu cynhyrchion tybaco a fepio drwy ddirprwy (cymalau 2 a 8) a dosbarthu cynhyrchion fepio am ddim i unigolion o dan 18 oed (cymal 9). Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer y troseddau prynu drwy ddirprwy sy'n gysylltiedig â thybaco a fêps nicotin (adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014) y gellir cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig.
50. Mae hysbysiadau cosb benodedig yn cynnig cyfle i'r person osgoi cael ei erlyn am y drosedd os bydd yn gwneud taliad penodol o fewn cyfnod penodedig. Yn y Bil hwn, swm y ddirwy fydd £100 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod a bydd yn lleihau 50% os caiff ei thalu o fewn 14 diwrnod. Ni ellir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol cyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod. Os na fydd y person sydd wedi cael yr hysbysiad cosb benodedig yn gwneud y taliad, yna gall yr awdurdod gorfodi lleol benderfynu cychwyn erlyniad yn ei erbyn mewn perthynas â'r drosedd.
51. Mae cymal 25 yn nodi bod yn rhaid i unrhyw enillion o hysbysiadau cosb benodedig a gaiff eu dyroddi o dan y Bil hwn gael eu defnyddio gan yr awdurdod pwysau a mesuriadau lleol mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Bil, Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002, Rhan 1 o Ddeddf Iechyd 2006 (mangreoedd di-fwg) a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt.

52. Mae cymal 26 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru newid swm yr hysbysiad cosb benodedig a'r disgownt canrannol ar gyfer talu'n gynnar. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i ymateb i'r darlun gorfodi yng Nghymru os na fydd y swm presennol sy'n gysylltiedig â hysbysiadau cosb benodedig yn llwyddo i atal unigolion rhag troseddu. Gellid ei ddefnyddio hefyd i adlewyrchu amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newidiol, fel newidiadau mewn chwyddiant. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

### **Cymal 27 ac Atodlen 1 – Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru**

53. Mae cymal 27 ac Atodlen 1 yn cyflwyno diwygiadau i'r drosedd ym Mhennod 4, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru). Nod y diwygiadau yw sicrhau bod y darpariaethau yn gydnaws â'r cyfyngiadau newydd ar yr oedran gwerthu ac ehangu'r drosedd i gynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill. Mae'r diwygiadau a amlinellir yn y Bil wedi'u nodi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Cymal 28 atodlenni 2, 3 a 4, 29 i 32 – Darpariaethau canlyniadol, trosiannol a darfodol**

54. Mae cymal 28 yn nodi'r diwygiadau canlyniadol sy'n gysylltiedig â Rhan 1. Nodir y diwygiadau yn atodlenni 2, 3 a 4 yn ôl pryd y daethant i rym.
55. Mae Atodlen 2 yn nodi unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a gaiff eu gwneud i ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a ddaw i rym ddeufis ar ôl i'r Bil gael ei basio.
56. Mae Atodlen 3 yn nodi unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a gaiff eu gwneud i ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a ddaw i rym chwe mis ar ôl i'r Bil gael ei basio.
57. Mae Atodlen 4 yn nodi unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a gaiff eu gwneud i ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2027.
58. Mae cymal 29 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ganlyniadol ar Ran 1. Mae'r pŵer hwn yn golygu y gellir diwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes o ganlyniad i'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil hwn. Nid oes unrhyw system gydsynio i Weinidogion Cymru mewn perthynas â defnyddio'r pŵer hwn. Gan fod y ddarpariaeth hon yn gyfyngedig i ddarpariaeth ganlyniadol, ystyrir ei bod yn briodol iddo gael ei neilltuo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.
59. Bydd cymal 30 yn sicrhau y bydd y gofynion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen orfodi yng Nghymru a Lloegr (cymalau 20 a 21 yn y Bil) yn berthnasol pan gaiff y Bil ei basio mewn perthynas â throseddau tybaco a fepio sy'n bodoli eisoes. Bydd cymalau 20 a 21 yn berthnasol i'r mesurau newydd yn y Bil wrth iddynt ddod i rym.

60. Mae cymal 31 yn golygu y bydd y gyfundrefn hysbysiadau cosb benodedig (cymal 24 hysbysiadau cosb benodedig) yn y Bil hwn yn berthnasol i droseddau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gwerthu cynhyrchion tybaco a fepio i unigolion dan oed, neu brynu'r cynhyrchion hyn ar ran unigolion dan oed. Bydd hyn yn parhau i fod yn berthnasol hyd nes y daw'r troseddau newydd y mae'r Bil yn cyfeirio atynt, sy'n rhan o'r gyfundrefn hysbysiadau cosb benodedig, i rym.
61. Mae cymal 32 yn darparu ar gyfer darpariaethau trosiannol.

### **Cymal 33 – Cymhwyso i'r Goron**

62. Mae cymal 33 yn nodi bod Rhan 1 o'r Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 1 yn rhwymo'r Goron.

### **Cymalau 34 i 36 – Dehongli etc**

63. Mae cymal 34 yn darparu'r diffiniadau ar gyfer y Rhan hon ac mae effaith y ddarpariaeth hon yn hunanesboniadol.

### **Cymal 35: Ystyr “cynnyrch nicotin”**

64. Mae cymal 35 yn darparu ystyr “cynnyrch nicotin” a gaiff ei esbonio yng nghymal 10 (Y pŵer i ehangu darpariaethau fepio i gynhyrchion nicotin). Mae'r cymal yn hunanesboniadol.

### **Cymal 36: Cysoni diffiniadau mewn deddfwriaeth arall**

65. Mae cymal 36 yn diweddarau'r diffiniad ar gyfer “cynnyrch tybaco” yn adran ddehongli Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002. Y diffiniad presennol o “gynnyrch tybaco” yw cynnyrch wedi'i wneud yn llwyr neu'n rhannol o dybaco ac y bwriedir iddo gael ei smygu, ei ffroeni, ei sugno neu ei gnoi. A'r diffiniad wedi'i ddiweddarau yw cynnyrch wedi'i wneud yn llwyr neu'n rhannol o dybaco ac y bwriedir iddo gael ei smygu, ei ffroeni, ei sugno, ei gnoi neu ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall.
66. Effaith y cymal hwn yw sicrhau cysondeb rhwng y gyfundrefn newydd a gaiff ei chyflwyno gan y Bil hwn a'r gyfundrefn deddfwriaethol bresennol. Mae'r diffiniad wedi'i ddiweddarau yn gliriach ac yn sicrhau ei fod yn berthnasol i bob cynnyrch tybaco, ni waeth sut y caiff ei ddefnyddio.

### **Rhan 4: Gofynion o ran cynhyrchion**

67. Mae'r mesurau a amlinellir yn Rhan 4 yn berthnasol i'r DU gyfan gan eu bod yn ymwneud â'r gofynion ar gyfer cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin. Bydd hyn yn cymhwyso safonau unffurf ar gyfer y cynhyrchion a fydd yn llifo ledled y DU.
68. Mae'r cymalau perthnasol yn y Rhan hon, y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer, fel a ganlyn:
- Cymalau 58 i 60 – Gofynion o ran cynhyrchion tybaco
  - Cymalau 61 i 63 – Gofynion o ran cynhyrchion fepio a nicotin

- Cymalau 64 i 68 – Atodol
- Cymalau 69 a 70 – Dehongli

69. Cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 4, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon os bydd y rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, Senedd yr Alban neu'r Cynulliad, fel yr amlinellir yng nghymal 67.
70. Mae cymalau 58 i 60 yn ailddeddfu'r pwerau gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch deunydd pecynwaith manwerthu a chyflasynnau cynhyrchion tybaco yn adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014). Mae'r pwerau wedi'u hailddeddfu yn golygu y gellir eu harfer heb orfod bodloni'r prawf yn adran 94(1). Mae'r Bil yn diddymu adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 gan fod y darpariaethau wedi'u hailddatgan yn y Bil hwn. Cafodd Rheoliadau Pecynnau Safonedig i Gynhyrchion Tybaco 2015 eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 94. Gan fod y Bil yn ailddeddfu'r pwerau hyn, mae adran 17(2)(b) o Ddeddf Dehongli 1978 yn golygu y bydd y Rheoliadau Pecynnau Safonedig i Gynhyrchion Tybaco yn parhau mewn grym.
71. Mae'r Rhan hon yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â chynhyrchion y bwriedir iddynt gael eu defnyddio yn y "sector manwerthu wrth deithio". Mae hyn yn golygu allfeydd manwerthu yn y DU lle mai dim ond pobl sy'n teithio i gyrchfannau y tu allan i'r DU all brynu cynhyrchion tybaco ynddynt. Mae'r Rhan hon yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â "chynhyrchu" cynhyrchion. Mae hyn yn golygu gweithgynhyrchu'r cynnyrch, neu roi enw, nod masnach neu nod penodol arall ar y cynnyrch gan berson, sy'n golygu mai'r person hwnnw sy'n cael ei ystyried yn gyfrifol am weithgynhyrchu'r cynnyrch. Mae'r Rhan hon hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn perthynas â "chyflenwi" cynhyrchion fel rhan o fusnes. Mae hyn yn cynnwys cynnig eu cyflenwi neu gytuno i'w cyflenwi, neu eu dangos neu feddu arnynt er mwyn eu cyflenwi.
72. Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 4 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
73. Mae cymalau 69 (Dehongli Rhan 4) a 70 (Ystyr "cynnyrch nicotin") yn darparu diffiniadau ar gyfer Rhan 4, gan gynnwys ystyr "deunydd pecynwaith" sydd, mewn perthynas â chynnyrch, yn golygu deunydd pecynwaith allanol y cynnyrch (gan gynnwys unrhyw ddeunydd lapio), deunydd pecynwaith mewnol y cynnyrch hwnnw, neu unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig ag ef neu wedi'i gynnwys gyda'r cynnyrch neu unrhyw beth sy'n rhan o'r deunydd pecynwaith mewnol neu allanol. Ystyr "deunydd pecynwaith manwerthu" mewn perthynas â chynnyrch, yw'r deunydd pecynwaith y caiff ei gyflwyno ynddo, neu y bwriedir iddo gael ei gyflwyno ynddo, i'w werthu gan y sector manwerthu.

### **Cymalau 58 i 60 – Gofynion o ran cynhyrchion tybaco**

74. Mae cymal 58 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch deunydd pecynwaith manwerthu cynhyrchion tybaco. Mae hyn yn

ailldeddfu, gyda rhai addasiadau, y pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch deunydd pecynwaith manwerthu cynhyrchion tybaco a nodir yn adran 94(6) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014). Gellid defnyddio'r pŵer yn y cymal hwn i reoleiddio agweddau amrywiol ar ddeunydd pecynwaith manwerthu, gan gynnwys ymddangosiad deunydd pecynwaith o'r fath yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir arno a'i siâp a'i wead.

75. Os bydd y rheoliadau yn darparu ar gyfer troseddau am fethu â chydymffurfio â gofynion yn y rheoliadau o dan gymal 58, rhaid i'r rheoliadau ddynodi y gellid ymdrin ag erlyniadau drwy gyfrwng gweithdrefn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf posibl a ddynodir yn y cymal hwn.
76. Mae cymal 59 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch cyflwynnau cynhyrchion tybaco. Mae hyn yn ailldeddfu'r pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch cyflwynnau tybaco yn adran 94(8) o Ddeddf 2014 gyda rhai addasiadau. Gall y rheoliadau osod gwaharddiadau, gofynion a chyfyngiadau mewn perthynas â chynhyrchu a mewnfurio cynhyrchion tybaco â chyflwynnau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn y DU, gael eu gwerthu yn y sector manwerthu wrth deithio neu gael eu cyflenwi fel rhan o fusnes. Gan fod y rheoliadau yn ymwneud â chynhyrchu, mewnfurio a chyflenwi cynhyrchion, byddai'n ofynnol i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi gydymffurfio â'r rheoliadau. Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn greu troseddau y mae'n rhaid iddynt fod yn brofadwy ar ffurf cwyn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf fel y'u nodir yng nghymal 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco).
77. Mae cymal 60 yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno gofynion eraill ar gynhyrchion tybaco. Mae hyn ymwneud â'r cynhyrchion eu hunain, yn hytrach na rheoliadau ar gyfer deunydd pecynwaith fel y nodir yng nghymal 58. Mae hyn yn ailldeddfu, gyda rhai addasiadau, y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y gofynion ar gyfer cynhyrchion tybaco a nodir yn adran 94(8) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014).
78. Gellid defnyddio'r pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y cynnyrch tybaco ei hun, yn hytrach na'r deunydd pecynwaith, er enghraifft gallai'r rheoliadau y gellir eu gwneud o dan y pŵer hwn ddynodi lliw'r cynhyrchion neu'r hyn y caniateir iddo gael ei argraffu ar gorff y cynnyrch (fel testun, er enghraifft). Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn greu troseddau y mae'n rhaid iddynt fod yn brofadwy ar ffurf cwyn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf fel y'u nodir yng nghymal 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco).

### **Cymalau 61 i 63 – Gofynion o ran cynhyrchion fepio a nicotin**

79. Mae cymal 61 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol reoleiddio deunydd pecynwaith manwerthu cynhyrchion fepio neu gynhyrchion nicotin. Ystyr deunydd pecynwaith manwerthu yw'r deunydd pecynwaith y caiff y cynnyrch ei gyflwyno ynddo, neu y bwriedir iddo gael ei gyflwyno ynddo, i'w werthu gan y sector manwerthu. Ystyr "deunydd pecynwaith" yw'r deunydd pecynwaith allanol, gan gynnwys y deunydd lapio, y deunydd pecynwaith mewmol ac unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch neu wedi'i gynnwys yn y cynnyrch.

Gellid defnyddio'r pŵer yn y cymal hwn i reoleiddio agweddau amrywiol ar ddeunydd pecynwaith manwerthu, gan gynnwys ymddangosiad deunydd pecynwaith o'r fath yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir arno a'i siâp a'i wead. Gellir trin cynhwysydd ail-lenwi sy'n cynnwys hylif fepio fel deunydd pecynwaith at y dibenion hyn. Bwriedir i'r pŵer i wneud rheoliadau a roddir gan y cymal hwn fod yn gydnaws â'r pŵer i wneud rheoliadau a roddir gan gymal 58 mewn perthynas â deunydd pecynwaith manwerthu cynhyrchion tybaco. Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn greu troseddau y mae'n rhaid iddynt fod yn brofadwy ar ffurf cwyn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf fel y'u nodir yng nghymal 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco).

80. Mae cymal 62 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch y sylweddau y gellir eu cynnwys yn y cynhyrchion fepio neu'r cynhyrchion nicotin (yn ogystal â swm unrhyw sylwedd penodedig). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd reoleiddio cyflasynnau cynhyrchion fepio neu gynhyrchion nicotin. Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn, er enghraifft, wahardd rhai cynhwysion penodol (fel fitaminau, lliwiau neu ychwanegion gwaharddedig) rhag cael eu defnyddio mewn cynhyrchion fepio a nicotin, gan gynnwys ychwanegion sy'n rhoi cyflasyn penodol (o ran blas ac arogl) i gynhyrchion fepio. Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn greu troseddau y mae'n rhaid iddynt fod yn brofadwy ar ffurf cwyn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf fel y'u nodir yng nghymal 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco).
81. Mae cymal 63 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau eraill ynghylch gofynion cynnyrch eraill ar gyfer cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin. Bydd y gofynion hyn yn ymwneud â'r cynnyrch ei hun, yn hytrach na'r deunydd pecynwaith, er enghraifft gallai'r rheoliadau y gellir eu gwneud o dan y pŵer hwn ddynodi'r lliw a ganiateir ar gyfer y cynhyrchion neu'r hyn y caniateir iddo gael ei argraffu ar gorff y cynnyrch (fel delweddau, er enghraifft). Bwriedir i'r pŵer i wneud rheoliadau a roddir gan y cymal hwn fod yn gydnaws â'r pŵer i wneud rheoliadau a roddir gan gymal 60 mewn perthynas â gofynion cynnyrch eraill ar gyfer cynhyrchion tybaco. Gall rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn greu troseddau y mae'n rhaid iddynt fod yn brofadwy ar ffurf cwyn ddiannod neu ddiad gan ddefnyddio'r cosbau uchaf fel y'u nodir yng nghymal 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco).

### **Cymalau 64 i 68 –Atodol**

82. Mae cymal 64 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch gorfodi. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i'r awdurdodau gorfodi perthnasol a darpariaeth sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon) i gymryd cyfrifoldeb dros gamau gorfodi (mewn perthynas â disgrifiad neu achos penodol) gan awdurdod gorfodi perthnasol.
83. Ceir darpariaeth hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gymhwyso amrywiol ddarpariaethau gorfodi a nodir yn Neddf Diogelu Defnyddwyr 1987, gydag



addasiadau neu hebddynt. Bydd hyn yn darparu pwerau gorfodi i awdurdodau gorfodi fel pŵer fforffedu neu'r pŵer neu'r pŵer i gael gwybodaeth.

84. Mae cymal 65 yn golygu pan gaiff rheoliadau eu gwneud o dan Ran 4 ar y gofynion ar gyfer cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin, y gellid cymhwyso'r gofynion a osodir o dan y rheoliadau i'r Goron. Mae'r mesurau yn Rhan 1 o'r Bil yn benodol berthnasol i'r Goron.
85. Mae cymal 66 yn cyfeirio at y pŵer cyffredinol o dan adran 76(1)(a). Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig ag unrhyw bŵer gwneud rheoliadau yn y Bil. Mae adran 76(1)(a) yn nodi'n glir bod y pŵer yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol ymhlith pethau eraill. Mae'r cymal yn nodi'n glir y gall y ddarpariaeth ganlyniadol a wneir gan reoliadau o dan Ran 4 ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth (pa bryd bynnag y cafodd ei phasio neu ei gwneud).
86. Mae cymal 67 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon o dan rai amgylchiadau penodol cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 4. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.
87. Mae cymal 68 yn hepgor adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014) mewn perthynas â'r gyfraith bresennol ar ddeunydd pecynwaith manwerthu tybaco. Caiff y rhain eu disodli gan gymalau 58 (Deunydd pecynwaith manwerthu tybaco), 59 (Cyflasynnau cynhyrchion tybaco) a 60 (Gofynion eraill o ran cynhyrchion tybaco) yn y Bil hwn.

### **Cymalau 68 a 70 – Dehongli**

88. Mae cymal 69 yn darparu diffiniadau ar gyfer y termau perthnasol a ddefnyddir yn Rhan 4 o'r Bil.

### **Cymal 70: Ystyr “cynnyrch nicotin”**

89. Mae cymal 70 yn darparu'r un diffiniad ar gyfer “cynnyrch nicotin” â chymal 35 ac a amlinellwyd yn yr esboniad yng nghymal 10 (Y pŵer i ehangu darpariaethau fepio i gynhyrchion nicotin).

### **Rhan 6: Cyffredinol**

90. Mae Rhan 6 (cymalau 75 i 81) yn darparu cymalau cyffredinol sy'n berthnasol i'r Bil. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon, sy'n cynnwys darpariaeth y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar ei chyfer, yw cymalau 76 i 81.
91. Mae cymal 75 yn darparu bod y Bil neu reoliadau a wneir oddi tano yn berthnasol i'r ystad Seneddol.
92. Mae cymal 76 yn berthnasol i bob pŵer gwneud rheoliadau o dan y Bil. Mae'r cymal hwn yn darparu lle caiff rheoliadau eu gwneud o dan y Bil, y gall y

rheoliadau wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, deilliadol, trosiannol neu arbed. Mae hyn hefyd yn caniatáu i reoliadau gyflwyno gwahanol ddarpariaethau at wahanol ddibenion a gwahanol ddarpariaethau ar gyfer gwahanol rannau o'r DU. Nid yw hyn yn berthnasol i'r darpariaethau cychwyn a'r darpariaethau trosiannol a nodir yng nghymalau 79 ac 80.

93. Mae cymal 77 yn darparu'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil. Caiff rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn eu gwneud drwy offeryn statudol. Mae'r cymal yn diffinio'r "weithdrefn penderfyniad cadarnhaol" a'r "weithdrefn penderfyniad negyddol" yng nghyd-destun y Bil hwn. Nid yw'r cymal yn berthnasol i'r rheoliadau a wneir o dan gymalau 79 (Cychwyn) ac 80 (Darpariaeth drosiannol).
94. Mae cymal 78 yn darparu ar gyfer graddau'r Bil hwn. Mae Rhannau 1, 4, 5 a 6 yn berthnasol i Gymru.
95. Mae cymal 79 yn darparu'r dyddiadau cychwyn ar gyfer yr amrywiol gymalau a Rhannau yn y Bil hwn. Mae adran Cychwyn y Nodiadau Esboniadol yn rhoi crynodeb ac esboniad manwl o'r dyddiadau cychwyn hyn. Mae'r darpariaethau cychwyn allweddol fel a ganlyn:
- Daw'r Ddeddf i rym 2 fis ar ôl y dyddiad y caiff ei phasio, yn ddarostyngedig i'r canlynol;
  - daw adrannau 7 (gwerthu cynhyrchion fepio i unigolion o dan 18 oed), 8 (prynu cynhyrchion fepio ar ran unigolion o dan 18 oed), 28(2) ac Atodlen 3 (diwygiadau canlyniadol a nodir yn Atodlen 3), i rym 6 mis ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio;
  - daw adrannau 1 i 6 (y prif ddarpariaethau tybaco), 28(3) ac atodlen 4 (diwygiadau canlyniadol a nodir yn atodlen 4), i rym ar 1 Ionawr 2027; daw cymalau 37, 38, 41, 48 hefyd i rym, mewn perthynas â'r Alban;
96. Mae cymal 79(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiadau y daw cymal 27 ac Atodlen 1 (Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru) i rym. Nid yw hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.
97. Mae cymal 80(1) yn darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â dod â chymal 27 neu Atodlen 1 (Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru) i rym. Nid yw hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn.
98. Mae cymal 80(4) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y ddarpariaeth drosiannol neu'r ddarpariaeth arbed mewn perthynas â dod ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym. Gan mai dim ond ymwneud â rhoi'r darpariaethau ar waith y mae'r ddarpariaeth hon, ystyrir ei bod yn briodol i'r pŵer hwn gael ei neilltuo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.
99. Mae cymal 81 yn darparu y gellir dyfynnu'r Bil hwn fel Deddf Tybaco a Fêps 2024 unwaith y caiff ei basio.

## Y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

100. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau i wneud is-ddeddfwriaeth:
- i Weinidogion Cymru;
  - i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda system gydsynio i Weinidogion Cymru;
  - i'r Ysgrifennydd Gwladol heb ddarpariaeth gydsynio

Yn fy nisgrifiad o ddarpariathau'r Bil (uchod), rwyf wedi nodi ble y gellir dod o hyd i bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Pan roddir y pŵer i Weinidogion Cymru, rwyf hefyd wedi amlinellu uchod pa weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer.

## Barn Llywodraeth y DU ar yr angen i gael cydsyniad deddfwriaethol

101. Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad i'r Bil cyfan, ac eithrio cymalau 5, 20, 71 i 75 a Rhan 2 a Rhan 3.

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Tybaco a Fêps

102. Tybaco yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n gysylltiedig ag achosion o salwch, marwolaethau ac anabledd yn y wlad hon, ac mae'n arwain at 80,000 o farwolaethau yn y DU bob blwyddyn ac yn gyfrifol am 1 o bob 4 marwolaeth o ganser yn y DU. Mae smygu yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n achosi clefyd y galon, strôc a methiant y galon ac mae'n cynyddu'r risg o ddementia ymhlith yr henoed. Mae'n ffactor risg ar gyfer canlyniadau gwael i famau a babanod, mae'n cynyddu'r risg o farw-enedigaethau yn sylweddol a gall achosi asthma mewn plant. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru>.

103. Mae fêps (y cyfeirir atynt hefyd fel sigarêts electronig, e-sigarêts, system dosbarthu nicotin electronig (ENDS), neu anweddwyr) yn gweithio drwy wresogi hydoddiant o ddŵr, cyflasyn, propylen glycol (neu glyserin llysiâu) ac, fel arfer, nicotin er mwyn creu anwedd y bydd y defnyddiwr yn ei fewnanadlu. Cyfeirir yn aml at y weithred o ddefnyddio fêp fel 'fepio'. I smygwyr, gall fêps fod yn ffordd effeithiol o roi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, nid argymhellir fepio i blant byth ac mae risg o niwed yn y dyfodol ac y byddant yn dod yn gaeth iddo yn y dyfodol. Mae nifer y plant sy'n defnyddio fêps wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf a rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2023, roedd 20.5% o blant wedi rhoi cynnig ar fepio: <https://ash.org.uk/resources/view/use-of-e-cigarettes-among-adults-in-great-britain-2021>.

104. Bydd y Bil yn darparu newidiadau deddfwriaethol ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yn achub degau o filoedd o fywydau ac yn arbed biliynau o bunnoedd i'r GIG. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ledled y DU yn dangos cefnogaeth eithriadol i'r mesurau.

105. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol i'r Bil hwn ar gyfer y DU wneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn hytrach na defnyddio Bil gan Senedd Cymru. Mae hyn yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Filiau'r DU.

106. Mae'r Bil yn cynnig cyfle i gyflawni cenhedlaeth ddi-fwg ac i amddiffyn plant rhag cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill yng Nghymru, yn ogystal â rhannau eraill o'r DU. Mae'r rhain yn amcanion polisi allweddol i Lywodraeth Cymru. O ystyried y cyfyngiadau presennol ar amserlen deddfwriaethol Senedd Cymru, mae hyn yn golygu y gellir cyflawni'r amcanion polisi mewn modd amserol.
107. O ystyried natur y broses rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â thybaco, fêps a chynhyrchion nicotin, a'r gofynion o ran y cynhyrchion, ystyrir mai dull cydweithredu rhwng y pedair gwlad fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o weithio i Gymru a'r DU. Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoliadol, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, dylid ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU p'un a fyddant yn bodloni'r rheoliadau ai peidio. Mae hyn hefyd yn osgoi'r posibilrwydd y bydd pedair set wahanol o reoliadau ar waith ledled y DU.
108. Mae'r Bil yn darparu dull gweithredu sy'n cefnogi amcanion polisi datganedig Llywodraeth Cymru ar smygu a fêps . Cafodd y darpariaethau cydsynio ar gyfer Rhan 4 eu drafftio mewn ffordd sy'n golygu y gellir rhoi cydsyniad i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â materion sy'n rhan o gymhwysedd datganoledig Cymru. Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth addas i'r setliad datganoli.
109. Mae'r Bil yn golygu y gellir cyflawni amcanion polisi mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ledled y DU. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfundrefn reoleiddio unigol i'r DU gyfan fel ffordd o sicrhau system gydlynol y gellir ei gweithredu ledled y DU gyfan mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn.
110. Pan ystyrir mai dull penodol i Gymru yw'r dull cywir, gan fod y darpariaethau yn ymwneud â diogelu iechyd a'r gwasanaeth iechyd, a'u bod yn berthnasol i Gymru, mae'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ymdrin â'r elfennau hyn. Er enghraifft, mae'r rheoliad ar arddangos fêps a chynhyrchion nicotin eraill wrth fannau gwerthu yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau.
111. Am y rhesymau hyn, mae'n briodol defnyddio Bil y DU fel y'i drafftiwyd i wneud y darpariaethau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd.
112. Ar wahân i'r darpariaethau yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu a chyflenwi fêps tafladwy, oherwydd eu heffeithiau ar yr amgylchedd: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwedddariad-ar-gynigion-i-gyflwyno-deddfwriaeth-i-wahardd-cyflenwi-weips>. Bwriedir i'r gwaharddiad ar fêps tafladwy ddod i rym ar yr un pryd â'r mesurau yn y Bil. Er mwyn atal unigolion nad ydynt yn smygu a phobl ifanc rhag dechrau fepio ac er mwyn codi refeniw er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno toll gartref newydd ar gynhyrchion fepio. Bydd cofrestriadau a chymeradwyaethau ar gyfer y dreth yn dechrau o 1 Ebrill

2026 a disgwylir i'r dreth fod yn weithredol o 1 Hydref 2026. Er mwyn cefnogi'r rôl y gall fêps ei chwarae wrth helpu smygwyr i roi'r gorau i sigarêts, caiff y doll ar dybaco hefyd ei chynyddu er mwyn cynnal y cymhelliant ariannol i ddewis fepio yn hytrach na smygu.

## Goblygiadau ariannol

113. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr wedi cyhoeddi Aseiad Effaith sy'n darparu aseiad economaidd o holl elfennau'r polisi hwn: <https://bills.parliament.uk/bills/3703/publications>
114. Mae smygu yn arwain at gost sylweddol i gymdeithas, a chynlluniwyd y mesurau yn y Bil er mwyn mynd i'r afael â'r costau hynny, gan gynnwys costau yn y dyfodol yn deillio o effeithiau tybaco ar iechyd ac ansawdd bywyd unigolion a'r economi. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod y costau sy'n gysylltiedig â smygu oddeutu £21 biliwn i'r DU. Mae hyn yn cynnwys colled o £17 biliwn o ran cynhyrchiant bob blwyddyn drwy enillion a gaiff eu colli o ganlyniad i smygu, diweithdra, a marwolaethau cynnar, yn ogystal â chost o £2.3 biliwn i'r GIG ac £1.3 biliwn i'r sector gofal cymdeithasol.
115. Mewn perthynas â fepio, amcangyfrifir y byddai'r holl reoliadau fepio (cyfyngiadau ar gyflasyngau, gofynion deunydd pecynwaith a rheoliadau ar arddangosiadau manau gwerthu) yn arwain at gostau i weithgynhyrchwyr, manwerthwyr a chyfanwerthwyr fêps. Byddai'r costau hyn yn cynnwys costau ymglyfarwyddo â'r rheoliadau newydd yn ogystal â gostyngiad mewn elw. Y prif fanteision iechyd a ddisgwylir o ganlyniad i'r polisiâu fepio yw gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dechrau fepio. Dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd o effeithiau iechyd fepio, yn enwedig y niwed tymor hir sy'n gysylltiedig â fepio, felly ni fu modd meintio'r manteision iechyd a fyddai'n deillio o ostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dechrau fepio. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Ganada yn awgrymu y gallai'r manteision iechyd i'r unigolyn i bob person ifanc na fydd yn dechrau fepio fod dros £14,000.
116. Adrannau Safonau Masnach awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith newydd ar yr oedran cyfreithiol ar gyfer gwerthu tybaco. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r isafswm oedran cyfreithiol presennol ar gyfer gwerthu tybaco ac felly ni ddisgwylir y bydd llawer o gostau ychwanegol yn deillio o'r polisi oedran gwerthu. O ran gorfodi'r mesurau ar gyfer fêps, mae'n bosibl y bydd beichiau newydd ar adrannau Safonau Masnach lleol yng Nghymru wrth orfodi'r gofynion newydd a gaiff eu hasesu cyn cyflwyno unrhyw reoliadau yn y dyfodol.
117. Cafodd adrannau Safonau Masnach hefyd eu cefnogi i fynd i'r afael ag achosion o werthu cynhyrchion tybaco a fêps yn fwy cyffredinol i unigolion dan oed ac mewn ffordd anghyfreithlon drwy weithgarwch amharu a gorfodi ar lefel genedlaethol. Darparodd Llywodraeth Cymru £145,250 yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn helpu awdurdodau Safonau Masnach yng Nghymru i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â fêps anghyfreithlon. Fel rhan o'u rôl i fynd i'r afael â chynhyrchion anghyfreithlon ledled y DU, caiff strategaeth CThEF a Llu'r Ffiniau, 'Dod â'r broblem i stop: strategaeth newydd i daclo tybaco

anghyfreithlon', ei chefnogi gan dros £100 miliwn o gyllid newydd gan Lywodraeth y DU dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn cynyddu'r gallu gorfodi ledled y DU.

### **Casgliad**

118. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen gweithredu ar sail y DU gyfan mewn perthynas â thybaco a fêps ac mai dim ond drwy Fil y DU gyfan y gellir gwneud hynny. Felly, rwy'n argymhell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad i'r Bil.

**Eluned Morgan AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**9 Mai 2024**